

## WILLIAMS, ROWLAND (1779 - 1854), clericwr

**Enw:** Rowland Williams  
**Dyddiad geni:** 1779  
**Dyddiad marw:** 1854  
**Priod:** Jane Wynne Williams (née Jones)  
**Plentyn:** Emily Pryce (née Williams)  
**Plentyn:** Rowland Williams  
**Rhiant:** Catherine Williams  
**Rhiant:** Richard Williams  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** clericwr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn Nhy'nypwll, Mallwyd, Meirionnydd, a'i fedyddio 27 Mawrth 1779, mab Richard Williams a Catherine ei wraig. Cafodd ei addysg mewn ysgol a gynhelid yn eglwys Mallwyd, yna ym Metws-yn-Rhos gyda Peter Williams, ficer y plwyf, ac yna yn ysgol Rhuthyn. Ymaelododd ym Mhrifysgol Rhydychen o Goleg Iesu, 24 Mai 1798, a graddio'n B.A. yn 1802 ac M.A. yn 1805. Cafodd urddau diacon yn 1802 ac offeiriad yn 1803 gan yr esgob Randolph o Rydychen, ac yna aeth yn athro i Ysgol Friars, Bangor, ac yn gurad Llandygai. Cafodd ddylanwad dwfn ar yr ardal rhag blaen. Yn 1807 penodwyd ef yn ficer Cilcain, ger yr Wyddgrug; yn 1809 yn ficer Helygain; yn 1819 yn ficer Meifod. Yn 1830 dychwelodd i Sir y Fflint, i Ysgeifiog, a bu yno hyd ei farwolaeth, 28 Rhagfyr 1854. Claddwyd ef yn Ysgeifiog, ac y mae iddo ffenestr goffa ym mhen gorllewinol eglwys gadeiriol Llanelwy. Priododd a Jane Wynne Jones o Dre-iorwerth, ger Bodedern, sir Fôn, a bu iddynt dri mab a phum merch. Un o'i feibion oedd [Rowland Williams](#) (1817 - 1870). Dechreuodd ymddiddori mewn pethau llenyddol Cymreig o'r amser yr aeth i Fangor, ac yn 1805 penodwyd ef yn ysgrifennydd Cymdeithas Traethodau Bangor. Yr oedd yn un o'r ' offeiriad llengar' a oedd yn weithgar iawn yn nauddegau a thriddegau y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chyfrifid ef yn awdurdod ar y Gymraeg. Yr oedd yn un o'r pedwar g r a benodwyd i adolygu y *Llyfr Gweddî Gyffredin Cymraeg* (cyhoeddwyd ffrwyth eu llafur yn 1841); credai'n gryf ym mhosisibiliadau'r Wasg Eglwysig Gymraeg, a gwnaeth lawer iawn i hyrwyddo cyhoeddi gwahanol gylchgronau. Ysgrifennodd gryn lawer ei hun i'r cylchgronau hyn, a chyhoeddodd hefyd amryw bregethau. Cymerodd ef a'i fab ran yn y frwydr yn 1843-6 yn erbyn uno esgobaethau Bangor a Llanelwy er darparu ar gyfer esgobaeth newydd Manceinion.

### Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

### Ffynonellau

A. O. Evans, *A Chapter in the History of the Welsh Book of Common Prayer; or, the letters which were written preparatory to the revised edition of 1841. Annotated, with biographical sketches* (Bangor 1922)

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874)

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Foster, *Alumni Oxonienses*

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7372204](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

